
Gweithgaredd 4

Taflen adnoddau 1

Siarter hawliau'r dosbarth

Meddyliwch am restrau eich dosbarth o hawliau a chyfrifoldebau. Lluniwyd y siarter hwn gan ddisgyblion ym Mlwyddyn 6 mewn ysgol a oedd yn cymryd rhan ym menter Hawliau, Parch a Chyfrifoldeb yn Swydd Hampshire.

Hawliau

Mae gyda ni i gyd yr hawl i...

- dderbyn addysg dda a hwyliog, sy'n eang ac yn gytbwys
- cael amgylchedd ystafell ddosbarth diogel a sicr
- preifatrwydd, e.e. ein loceri a'n hambyrddau
- cael rhywun i wrando arnon ni, a chael y cyfle i fynegi ein barnau
- adnoddau o ansawdd da
- athrawon ac oedolion sy'n ofalgar ac yn deg
- cael hwyl a mwynhau ein hamser ym Mlwyddyn 6, yn enwedig yn ystod amser chwarae
- ffrindiau a chydweithio gydag eraill

Gweithgaredd 4

Taflen adnoddau 2

Siarter cyfrifoldebau'r dosbarth

Meddyliwch am restrau eich dosbarth o hawliau a chyfrifoldebau. Lluniwyd y siarter hwn gan ddisgyblion ym Mlwyddyn 6 mewn ysgol a oedd yn cymryd rhan ym menter Hawliau, Parch a Chyfrifoldeb yn Swydd Hampshire.

Cyfrifoldebau

Mae gyda ni i gyd y cyfrifoldeb i...

- weithio a dysgu i'n potensial llawn drwy wneud yn siwr ein bod yn cwblhau ein gwaith i'r safon orau ac o fewn y terfyn amser
- gofalu am amgylchedd ein dosbarth, yn enwedig drwy ei gadw'n lân ac yn daclus
- sicrhau ein bod yn gofyn am ganiatâd cyn mynd i mewn i loceri neu hambyrddau pobl eraill
- gwranddo ar safbwyntiau a barnau pobl eraill a'u parchu
- gofalu am adnoddau ein dosbarth a'u parchu
- dangos parch a bod yn gwrtais ac yn gymwynasgar tuag at bob oedolyn
- ymddwyn mewn ffordd synhwyrol ac aeddfed yn ystod gwersi ac amseroedd chwarae
- i gadw golwg dros ein gilydd, gan wneud yn siwr bod pawb yn hapus